

HOARE, Syr RICHARD COLT (1758 - 1838), ail farwnig, hanesydd a hynafiaethydd

**Enw:** Richard Colt Hoare

**Dyddiad geni:** 1758

**Dyddiad marw:** 1838

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** ail farwnig, hanesydd a hynafiaethydd

**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig; Ysgolheictod ac Ieithoedd

**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ceir manylion am ei yrfa a rhestr o'r amryw weithiau a gyhoeddodd yn *D.N.B.*, eithr y mae ei gysylltiad â Chymru yn haeddu iddo sylw byr yn y gwaith hwn hefyd. Pan ddaeth ar daith trwy Gymru am y tro cyntaf dewisodd ddilyn yng nghamre [Gerallt Gymro](#); cyhoeddodd *Itinerarium Cambriae, seu laboriosae Baldvini Cantuarensis Archiepiscopi per William Legationis accurata Descriptio, auctore Silv. Giraldo Cambrense cum Annotationibus Davidis Poweli...* (London, 1804) a *The Itinerary of Archbishop Baldwin through Wales, A.D. 1188, by Giraldus de Barri, translated into English, and illustrated with Views, Annotations, and a Life of Giraldus...* (London, 1806). Bu hefyd ar daith drwy sir Fynwy gyda'r archddiacon Coxe, a chyhoeddwyd yn *Toury* g r hwnnw dros 60 o ddarluniau a wnaeth Hoare. Bu'n aros am beth amser yn Fachddeiliog, ar lan llyn y Bala (gweler [Richard Fenton](#), *Tours in Wales*, gol. [J. Fisher](#), 1817) gan ymweld â lleoedd o ddiddordeb hynafiaethol a 'rhamantus' a'u darlunio. Y mae amryw o'i ddarluniau gwreiddiol yn y Llyfrgell Genedlaethol ac, o leiaf, dri o'i 'Sketch-books' yn cynnwys disgrifiadau a darluniau (e.e. N.L.W. MS. 5370 a dwy gyfrol yng nghasgliad Llangibby Castle).

## Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

## Ffynonellau

At y cyfeiriadau a roddir uchod ychwaneger *NLW MSS* 821-2, 850-3, 867, a 1805

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [59091385](#)

Wikidata: [Q2363258](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

